# Ysgol Aberconwy

# Asesu, Cofnodi & Adrodd

**DOGFEN BOLISI RHIF:5** **RHIFYN: 7**

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU LLAWN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 30/9/25**

**Dyddiad adolygu: 1/10/27** **Cyswllt TA : CEK**

**Asesu, Adrodd & Chofnodi**

Sut ydym ni'n asesu?

Ym mhob prosiect 10-wythnos mae ffocws clir ar nodi'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol yr ydym am i ddysgwyr eu caffael a'u datblygu. Mae cyfleoedd i asesu wedi'u cynllunio o fewn y prosiectau ac mae dysgwyr yn cael eu hasesu mewn amryw o wahanol ffyrdd. Mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd hefyd wedi'u nodi yn y prosiectau.

Mae bwriadau dysgu'r prosiectau a'r meini prawf asesu dilynol wedi'u nodi'n glir. Drwy gydol addysgu'r prosiectau, mae asesu wedi'i fewnblannu yn yr ymarfer mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac yn ei gwneud yn anwahanadwy o'r dysgu a'r addysgu. Mae athrawon dosbarth yn barnu pa mor dda y mae dysgwyr yn caffael neu'n datblygu'r cysyniadau a'r sgiliau a nodwyd. Caiff hyn ei fewnbynnu i SIMS mewn 'Llyfr Marciau Athro'. Mae hyn yn galluogi athrawon dosbarth i gael dealltwriaeth fanwl gywir a dibynadwy o gryfderau a gwendidau eu dysgwyr fel y gallant ymateb yn barhaus i anghenion unigol yr ystod lawn o ddysgwyr yn eu hystafell ddosbarth.

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu. Mae Polisi Adborth yr ysgol yn golygu bod pob dysgwyr yn ail-ddrafftio neu'n atgyweirio eu gwaith.

Mae cynnydd mewn dysgu yn cael ei fesur o **fan cychwyn** pob dysgwr yn hytrach nag yn erbyn lefelau sefydlog neu gyfartaleddau cenedlaethol *''Mae cyflymder cynnydd dysgwyr yn gymharol â'u mannau cychwyn a'u hanghenion unigol."* (Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022, LlC, 2020)

Mae athrawon ystafell ddosbarth yn defnyddio'r iaith a'r meini prawf canlynol wrth wneud yr asesiadau hyn:

- Meistroli – Mae gan y myfyriwr ddealltwriaeth soffistigedig o'r cysyniadau/sgiliau a nodwyd ac mae'n gallu adeiladu ar hyn yn annibynnol. Mae gwybodaeth newydd wedi'i chysylltu â dysgu blaenorol ac mae'r myfyriwr yn gallu gwneud cysylltiadau ar draws y MDP.

- Sicrhau – Mae gan y myfyriwr ddealltwriaeth sicr o'r cysyniad/sgìl a nodwyd ac mae'n gallu egluro/dangos hyn yn hyderus.

- Datblygu – Mae gan y myfyriwr ddealltwriaeth gadarn o'r cysyniad/sgìl a nodwyd. Mae angen ymyrraeth bellach er mwyn sicrhau hyn.

- Ymddangos – Gyda chefnogaeth, gall y myfyriwr ddeall nodweddion sylfaenol y cysyniad/sgìl sy'n cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae camsyniadau yn rhwystro cynnydd.

Sut ydym ni'n monitro cynnydd?

Bob 10 wythnos, mae athrawon yn llunio barn fwy cyfannol ar gynnydd myfyrwyr a'u hagwedd at ddysgu yn eu pwnc. Defnyddir yr wybodaeth sydd wedi'i storio yn 'Llyfr Marciau'r Athro' i lywio hyn. Mae'r adroddiadau interim hefyd yn nodi 'camau nesaf' penodol mewn dysgu yn seiliedig ar gynnydd myfyriwr yn y prosiect. Rhennir hyn gyda myfyrwyr a'u rhieni. Mae myfyrio ar gynnydd dysgwr dros amser yn galluogi athrawon dosbarth i roi adborth a helpu i gynllunio dysgu'r dyfodol,

gan gynnwys unrhyw ymyriadau, cefnogaeth ychwanegol neu her a allai fod yn ofynnol. “Mae cyflymder cynnydd dysgwyr yn gymharol â'u mannau cychwyn a'u hanghenion unigol.” (Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022, LlC, 2020)

Yna mae Penaethiaid Adran, Rheolwyr Llinell UDA a’r Pennaeth yn cyfarfod bob 10 wythnos i drafod perfformiad y garfan. Yn y trafodaethau hyn, bydd Penaethiaid Adran yn adrodd ar ba mor dda y mae’r bwriadau dysgu wedi’u sicrhau a sut y bydd eu tîm yn addasu eu cwricwlwm a’u hymarfer dyddiol i fynd i’r afael ag unrhyw gamsyniadau am feysydd o wendid. Mae’r sgyrsiau hyn yn galluogi ymarferwyr ac arweinwyr i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

**Amcangyfrifon & Thargedau**

Mae darparu targedau ar gyfer myfyrwyr yn rhoi asesiadau yn eu cyd-destun ac yn caniatáu i ni asesu a yw cynnydd digonol yn cael ei wneud ar draws uned, blwyddyn neu gyfnod allweddol.

- Gosodir targedau ar ddechrau blwyddyn 10 ar gyfer CA4 ac fe'u hadolygir a'u diwygio ar ddechrau blwyddyn 11. Dylid defnyddio Graddau Cyffredinol fel man cychwyn i staff osod targedau.
- Mae myfyrwyr yn derbyn amcangyfrifon a ddarperir drwy ALPS yn CA5. Cynhwysir yr amcangyfrifon hyn ar daflenni marciau SIMS er gwybodaeth i staff.
- Gosodir targedau blynyddol ar gyfer pob myfyriwr, ar bob lefel.

Blwyddyn 7-9

- Yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru, ni osodir targedau yn CA3.
- Bydd adroddiadau interim ar sgiliau yn cael ei ddadansoddi i sicrhau disgwyliadau priodol yn CA3.
- Bydd cynnydd yn cael ei fesur, ei gofnodi a'i ddadansoddi gan ddefnyddio lefelau (gweler 'Adrodd i Rieni' isod)

CA4/5

- Gosodir targedau ar ffurf graddau TGAU/Safon Uwch a byddwn yn graddio’n fanwl er mwyn dynodi cynnydd a chyrhaeddiad.

Ym mhob achos, dylid cyfleu’r targedau, lle bo’n briodol, i’r myfyrwyr. Dylai myfyrwyr wybod eu targedau a dylai’r addysgu yn y dosbarth atgyfnerthu dealltwriaeth o’r hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd y targed.

**Asesu**

Yn Ysgol Aberconwy rydym yn ymdrechu i ddefnyddio asesu mewn ffordd sy’n hyrwyddo dysgu disgybl i’r eithaf. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng technegau asesu crynodol traddodiadol a’r broses ffurfiannol a elwir yn asesu ar gyfer dysgu. Mae asesiadau crynodol a ffurfiannol yn cael eu tynnu at ei gilydd er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cael y profiad asesu gorau, sy’n ategu ac yn hwyluso cynlluniau gwaith a strwythurwyd ac a drefnwyd yn effeithiol.

Dylai teithiau dysgu gael eu trefnu'n unedau sy'n parhau am tua 10 wythnos. Dylai'r asesiad o waith ym mhob uned gynnwys nifer o asesiadau ffurfiannol ar gyfer pob uned. Y disgwyliad yw rhwng 3 a 5, ond rydym yn annog adrannau i nodi pwyntiau priodol i adolygu dysgu a chynnydd. Bydd deilliannau pob uned, manylion pryd y cynhelir yr asesiad a'r meini prawf llwyddiant ar gyfer dysgu yn cael eu cyfathrebu i fyfyrwyr trwy 'Daith Ddysgu' yn eu llyfr ar gyfer pob uned.

***Asesu ar gyfer Dysgu*** **(Adborth)**

Rydym yn mabwysiadu dull hyblyg o roi adborth, gan ddewis y dull mwyaf priodol yn dibynnu ar y pwnc neu'r dasg. Y pedwar dull yw:

| Dull | Disgrifiad |
|---|---|
| **Blwch Melyn** | Mae'r athro yn marcio un adran o'r gwaith yn fanwl, yn rhoi adborth penodol, mae'r dysgwyr yn gwella'r adran honno. |
| **Adborth Dosbarth Cyfan** | Yn mynd i'r afael â chamsyniadau cyffredin, wedi'u cyflwyno trwy daflen adborth, gyda thasgau dilynol. |
| **Asesu Cyfoedion a Hunanasesu** | Mae dysgwyr yn defnyddio rhestrau gwirio a chodau i fyfyrio ac asesu cyfoedion (ni ddefnyddir hyn ar gyfer y prif dasgau a asesir). |
| **Adborth Byw / Llafar** | Adborth llafar ar unwaith, rhyngweithiol ac addasol, yn cael ei ddefnyddio amlaf mewn tasgau ymarferol. |

Amser Cyfeiriedig ar gyfer Gwella a Myfyrio (DIRT)

- Bydd amser ym mhob gwers i ddysgwyr weithredu ar yr adborth a dderbynnir ganddynt.
- Rhaid i bob dysgwr gwblhau eu hymatebion.
- Mae'r amser hwn yn sicrhau myfyrio a chynnydd.


Mynd i'r afael â Chamsyniadau

Yn dilyn asesiad, bydd athrawon yn adolygu canlyniadau. Lle bo angen, gellir ailgynllunio gwersi neu ddilyniannau o wersi i fynd i'r afael â bylchau mewn dealltwriaeth neu gamsyniadau.

Polisi Marcio Llythrennedd

Mae'r polisi marcio ar gyfer llythrennedd yn berthnasol I bob tasg ysgrifennu estynedig. Rhaid i ddysgwyr gywiro gwallau gan ddefnyddio pen porffor.

Rhennir ein Polisi Adborth gyda dysgwyr a staff yn y graffig canlynol:




***Asesu ar gyfer Dysgu*** **(Asesu Crynodol)**

Ar ddiwedd uned gellid asesu myfyrwyr i nodi'r cynnydd a wnaethant o ran y sgiliau neu'r wybodaeth a ddatblygwyd ganddynt yn ystod y Daith Ddysgu hon.  Dylid rhoi marciau i fyfyrwyr am bob sgìl/topig/cwestiwn a'u cofnodi ar PLC (Rhestr Wirio Dysgu wedi'i Bersonoli) a osodwyd ar daflen farciau SIMs gan reolwr data'r ysgol.  Bydd hyn yn hwyluso dadansoddiad manwl o gryfderau a gwendidau myfyrwyr ac yn hwyluso'r cynllunio ar gyfer gwella yn yr unedau sydd i ddod.

Yn ychwanegol, gellir raddio asesiadau crynodol gan ddefnyddio graddau lefel TGAU neu Safon Uwch, i roi syniad i fyfyrwyr o'u lefel cyrhaeddiad bresennol.

- Ym mlynyddoedd 7, 8 a 9: Dylid defnyddio disgrifiadau o ddysgu ar gyfer pob MDaPh fel canllaw i athrawon asesu cynnydd pob myfyriwr.
- Yn CA4 / 5: Dylai graddau marcio fod yn ôl llythyren e.e. 'B'. Dylent gyfateb i safonau gwirioneddol, h.y. mae gradd A yn golygu y byddai'r darn hwn o waith yn ennill A ar lefel

TGAU / Safon Uwch. Dylai myfyrwyr gael mynediad at gynlluniau marcio, lle bo modd, i'w helpu i wneud synnwyr o radd benodol.

**Cofnodi**

- Bydd rheolwr data'r ysgol yn creu Taflenni Marciau Sims ar gyfer staff i'w galluogi i gofnodi lefelau/cynnydd neu raddau erbyn terfynau amser cytunedig.
- Ym mlwyddyn 7, 8 a 9 dylai staff gofnodi cynnydd pob disgybl yn erbyn disgrifyddion ar daflenni marciau Sims.
- Yn CA4 a 5 dylai staff gofnodi gradd sy'n dynodi *perfformiad rhagweledig* ar ddiwedd y flwyddyn, o'i gymharu â tharged y myfyriwr. Dylai'r rhagfynegiad hwn adlewyrchu perfformiad diweddar y myfyriwr a barn broffesiynol yr athro.
- Yn ogystal, rhaid dynodi'r Agwedd at Ddysgu a amlygwyd yn ddiweddar.
- Nid yw'n ofynnol i staff gadw unrhyw gofnodion ar wahan i'r rhain (ac eithrio unrhyw gofnodion sy'n ofynnol ar gyfer BTEC/CAT allanol), ond efallai y byddant yn dymuno gwneud hynny mewn llyfr marciau personol. Dylid cadw at Bolisi'r Adran wrth wneud cofnodion o'r fath.

**Adrodd i rieni: Blwyddyn 10 - 13**

Anfonir adroddiadau interim sy'n cynnwys lefelau targed at rieni, ond byddwn yn defnyddio'r ymadroddion canlynol i ddynodi cynnydd.

- "Anfoddhaol" ar gyfer -2 neu lai o'r targed neu fel y nodir ar gyfer pynciau heb lefelau CC
- "Cynnydd Boddhaol" ar gyfer -1 neu lai o'r targed neu fel y nodir ar gyfer pynciau heb lefelau CC
- "Cynnydd Da" ar gyfer disgyblion sy'n bodloni lefel darged neu fel y nodir ar gyfer pynciau heb lefelau CC
- "Cynnydd Rhagorol" ar gyfer disgyblion sy'n +1 neu fwy o'r targed neu fel y nodir ar gyfer pynciau heb lefelau CC

Adroddiadau Blynyddol: bydd staff yn gwneud sylwadau ar fyfyrwyr unigol drwy SIMS yn unol â'r gronfa sylwadau blwyddyn priodol. Bydd y Pennaeth Ysgol yn ysgrifennu trosolwg ar gyfer pob disgybl.

**Defnyddio Data**

- Bydd data cryno ar gael bob hanner tymor ar gyfer Penaethiaid Blwyddyn, Mentoriaid Arweiniol & Rheolwyr, UDA, ac unrhyw un arall sydd eu hangen, drwy Office 365 a Teams.
- Bydd data tracio Bl11/12/13, gyda chrynodeb o'r hyn sydd gan fyfyrwyr yn barod a'r hyn y rhagfynegir y byddant yn ei gael yn cael eu cadw mewn ffordd debyg, trwy ddefnyddio 4 matrics.
- Defnyddir ALPS yn CA5 i fonitro cynnydd pob disgybl yn erbyn eu hisafswm gradd ddisgwyliedig (MEG).

Ar lefel adrannol :

- Dylai rheolwyr llinell, ar y cyd â Phenaethiaid Adran, adolygu cynnydd pynciau / dosbarthiadau yn eu maes yn rheolaidd, a datblygu strategaethau i godi lefelau cyflawniad lle bo angen.
- Yn CA4 bydd Penaethiaid Adran yn cynhyrchu rhestr o fyfyrwyr "ymylol allweddol" ar gyfer eu maes pwnc ac yn cofnodi'r sgiliau neu'r cynnwys y mae'r myfyrwyr yn brin ohonynt ar 'restr wirio dysgu wedi'i phersonoli' (PLC). Bydd ymyriadau a chyfleoedd cymorth i fynd i'r afael â'r sgiliau hyn yn cael eu cyfathrebu i fyfyrwyr.
- Dylai 'Cynnydd Disgybl' fod yn eitem gyfarwydd ar bob agenda a gynhyrchir gan Benaethiaid Adran, gan alluogi'r tîm adrannol i drafod myfyrwyr / dosbarthiadau unigol a chefnogi ei gilydd wrth godi safonau.

Ar gyfer myfyrwyr unigol :

- Bydd Penaethiaid Blwyddyn yn adolygu cynnydd disgyblion ac yn penderfynu ar unrhyw ymyriadau neu strategaethau ychwanegol.
- Yn CA3 gall arweinydd safonau CA3, ar y cyd â'r tîm bugeiliol, drefnu mentora pwrpasol sydd wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn, gan ddefnyddio cyfanswm y gwahaniaeth rhifiadol rhwng targedau a pherfformiad e.e. disgyblion gyda chyfanswm sgôr o -3 neu lai.
- Bydd mentoriaid a thiwtoriaid yn ceisio cyfarfod â phob myfyriwr yn ystod yr hanner tymor ar ôl rhyddhau'r data mwyaf diweddar, i drafod cynnydd y myfyriwr a thywys y myfyriwr tuag at ddulliau o wella. Efallai y rhoddir blaenoriaeth i rai myfyrwyr, yn dilyn dadansoddiad o'r data gan y Mentor / Pennaeth Blwyddyn.

## Atodiad 1: Adroddiadau enghreifftiol i hwyluso'r prosesau hyn :

1. Cynnydd grwpiau o ddysgwyr mewn pwnc : (CA4 : 4 Matrix; CA5: ALPs)


**Subject Overview**

| Details | Entries | | | | | | | | | | Performance | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Entered | | A+ | | C+ | | D+ | | G+ | | | |
| Name | # | % | # | % | # | % | # | % | # | % | Residual | APS |
| **Group: Basic** | | | | | | | | | | | | |
| All Students | 30 | 20.83 | 23 | 76.67 | 30 | 100 | 30 | 100 | 30 | 100 | 1.49 | 51.2 |
| **Group: Gender** | | | | | | | | | | | | |
| Males | 8 | 10.67 | 5 | 62.5 | 8 | 100 | 8 | 100 | 8 | 100 | 1.25 | 48.25 |
| Females | 22 | 31.88 | 18 | 81.82 | 22 | 100 | 22 | 100 | 22 | 100 | 1.58 | 52.27 |
| Gender Gap | -14 | -21.22 | -13 | -19.32 | -14 | 0 | -14 | 0 | -14 | 0 | -0.33 | -4.02 |
| **Group: Pupil Premium** | | | | | | | | | | | | |
| Pupil Premium | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Non Pupil Premium | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pupil Premium Gap | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Group: FSM** | | | | | | | | | | | | |
| FSM | 5 | 14.71 | 1 | 20 | 5 | 100 | 5 | 100 | 5 | 100 | 1.57 | 44.8 |
| Non FSM | 25 | 22.94 | 22 | 88 | 25 | 100 | 25 | 100 | 25 | 100 | 1.48 | 52.48 |
| FSM Gap | -20 | -8.23 | -21 | -68 | -20 | 0 | -20 | 0 | -20 | 0 | 0.09 | -7.68 |
| **Group: Prior Attainment** | | | | | | | | | | | | |
| High | 30 | 20.83 | 23 | 76.67 | 30 | 100 | 30 | 100 | 30 | 100 | 1.49 | 51.2 |
| Middle | 30 | 20.83 | 23 | 76.67 | 30 | 100 | 30 | 100 | 30 | 100 | 1.49 | 51.2 |
| Low | 30 | 20.83 | 23 | 76.67 | 30 | 100 | 30 | 100 | 30 | 100 | 1.49 | 51.2 |
| **Group: Classes** | | | | | | | | | | | | |
| 11A/As1 - Mrs Griffith | 21 | 100 | 16 | 76.19 | 21 | 100 | 21 | 100 | 21 | 100 | 1.56 | 50.57 |
| 11B/As1 - Mrs Russell | 12 | 100 | 8 | 66.67 | 12 | 100 | 12 | 100 | 12 | 100 | 1.64 | 51.5 |

**Subject Tracker**

| Details | | | | Results | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename | Surname | Gender | Result Count | Y11 Autum | Y11 Targe |
| Callum | Hagan | Male | 2 | C1 | B |
| **Ashleigh** | **Hughes** | **Female** | **2** | **D3** | **D** |
| Rhian Eluned | James | Female | 2 | B1 | B |
| Max | Johnston | Male | 2 | B1 | B |
| Connor | Parry | Male | 2 | C2 | C |
| Leo | Pithers | Male | 2 | E1 | D |
| Leon | Pollock | Male | 2 | D3 | D |
| Annabelle | Protheroe | Female | 2 | A1 | A |
| Liam | Purvis-Evans | Male | 2 | B1 | B |
| Isaac | Stubbs-Davies | Male | 2 | C2 | C |
| Lennon | Williams | Male | 2 | B1 | B |

**Subject Profile** — Names • View Qualification • Hide Pupils Not In Group



## Subjects Overview


| Subject | MPZ-AS | | | Yr13 Targets | | | Yr 13 Aut A | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Entries | Score | Grade | Entries | Score | Grade | Entries | Score | Grade |
| A - Art (Fine Art) | 10 | 1.25 | 2 | 11 | 1.17 | 3 | 11 | 1.26 | 2 |
| A - Biology | 20 | 0.90 | 4 | 19 | 1.06 | 2 | 19 | 0.94 | 3 |
| A - Business Studies | - | - | - | 9 | 1.08 | 2 | 8 | 1.00 | 4 |
| A - Chemistry | 13 | 0.87 | 5 | 12 | 0.94 | 3 | 12 | 0.82 | 6 |
| A - D&T (Product Design) | 9 | 1.04 | 3 | 9 | 1.06 | 3 | 9 | 1.02 | 3 |

MENU

Filters EDIT

Compare EDIT


Alps grades




## Subjects Overview / A - Mathematics

OVERVIEW | STUDENTS | OUTCOMES | TRENDS | FINE GRADES | SAVED

Teaching sets as % of cohort




| | MPZ-AS | | | | Yr13 Targets | | | | Yr 13 Aut A | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Students | Score | Grade | Avg PA | Students | Score | Grade | Avg PA | Students | Score | Grade | Avg PA |
| All | 18 | 1.05 | 2 | 6.88 | 18 | 1.05 | 2 | 6.88 | 18 | 0.95 | 5 | 6.88 |
| Female | 7 | 1.00 | 3 | 7.20 | 7 | 0.92 | 6 | 7.20 | 7 | 0.83 | 7 | 7.20 |
| Male | 11 | 1.08 | 2 | 6.67 | 11 | 1.14 | 2 | 6.67 | 11 | 1.03 | 3 | 6.67 |
| Disadvantaged | 5 | 1.10 | 2 | 6.74 | 5 | 1.14 | 2 | 6.74 | 5 | 0.98 | 4 | 6.74 |
| Non-Disadvantaged | 13 | 1.04 | 2 | 6.93 | 13 | 1.02 | 3 | 6.93 | 13 | 0.94 | 5 | 6.93 |

**Atodiad 2 : Asesu Ffurfiannol : Arweiniad Pellach**

Cydnabyddwn nad yw asesu ffurfiannol yn gyfyngedig i'r hyn a ysgrifennir ar bapur. Mae adborth llafar yn briodol hefyd, ac yn aml gall trafodaeth un ac un gyda myfyriwr fod yn gynhyrchiol a chreu gofod ar gyfer sylwadau mwy penodol na rhai ysgrifenedig. Dylai asesu ffurfiannol ddigwydd drwy gydol gwers, a gellir gwneud hyn mewn amryw ffordd. Mae asesu hefyd yn offeryn defnyddiol sy'n ein helpu i "bersonoli" dysgu a sicrhau bod yr addysgu'n cyd-fynd yn agosach ag anghenion unigol disgyblion. Mae'r arweiniad hwn yn ceisio cynnig awgrymiadau ynglŷn â sut i wneud hyn – nid yw'n rhestr gyflawn.

a) Rhannu Deilliannau Dysgu

*Rhannu deilliannau dysgu clir a diamwys gyda'r myfyrwyr a chreu deialog ynglŷn â sut y gall y myfyrwyr eu cyflawni'n llwyddiannus.*

- Sicrhau ei bod yn rhan ddisgwyliedig o bob gwers;
- Mynegi deilliannau dysgu yn nhermau'r hyn y bydd y myfyrwyr wedi'i gyflawni (gwybod, deall, gallu gwneud) neu gwestiwn y byddant yn gallu ei ateb erbyn diwedd y wers;
- Sicrhau bod y deilliant dysgu yn elfen sydd ar wahân i'r gweithgaredd;
- Gadael i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn pennu "Meini Prawf Llwyddiant";
- Dangos enghraifft neu fodel o "Ansawdd", er enghraifft drwy ddangos gwaith blaenorol sy'n ddienw;
- Gofyn i'r myfyrwyr ailadrodd y deilliannau dysgu, neu hyd yn oed eu hysgrifennu yn eu llyfrau (efallai ar ddechrau'r wers).

b) Holi er mwyn cefnogi dysgu

*Anelwch at greu diwylliant 'cwestiynu' yn y dosbarth, lle anogir myfyrwyr nid yn unig i holi ac ateb cwestiynau ond hefyd lle rhoddir cyfleoedd cyson iddynt i ymateb i gwestiynau a gynlluniwyd er mwyn datblygu sgiliau meddwl uwch.*

- Defnyddiwch amrywiaeth o gwestiynau at bwrpasau penodol;
- Paratowch a chynlluniwch cwestiynau a fydd yn dangos ac yn archwilio dealltwriaeth myfyrwyr, gan beri iddynt feddwl ac nid cofio'n unig;
- Dyfeisiwch strategaethau dosbarth sy'n peri i fyfyrwyr feddwl drwy'r amser (er enghraifft drwy ofyn i fyfyrwyr penodol beth y gallant ei ychwanegu at ymateb myfyriwr arall);
- Yn y dosbarth defnyddiwch gwestiynau a fyddai'n cael eu hystyried yn gwestiynau 'camarweiniol' mewn prawf, er mwyn canfod sut mae myfyrwyr yn meddwl;
- Rhannwch gwestiynau a baratowyd ymlaen llaw gydag athrawon eraill er mwyn creu cronfa o gwestiynau "cyfoethog" ac ychwanegwch hwy at y Teithiau Dysgu;
- Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon amser i "feddwl", o leiaf 3 - 4 eiliad cyn aralleirio'r cwestiwn;
- Cymerwch amser i ystyried atebion myfyrwyr a'r dysgu a amlygwyd ganddynt.
- Anogwch fyfyrwyr i feirniadu cwestiynau;
- Rhowch gyfle i fyfyrwyr drafod eu syniadau mewn parau neu grwpiau bach cyn dod â'r dosbarth at ei gilydd eto (meddwl, pario, rhannu);

- Gofynnwch i'r myfyrwyr gynhyrchu cwestiynau ar bwnc fel ffordd o asesu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth;
- Dyfeisiwch strategaethau i sicrhau bod pob myfyriwr yn ymateb i gwestiynau ac i osgoi dysgwyr goddefol a myfyrwyr sy'n ymateb o hyd.

c) Hunanasesu ac Asesu Cyfoedion

*Anelwch at gynnwys cyfleoedd cyson ar gyfer asesu cyfoedion a hunan-asesu yn ein gwersi. Y nod yw "hyfforddi" myfyrwyr i ddatblygu'n aseswyr ansawdd naturiol, gwnewch hynny drwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd mewn gwersi i asesu cyfoedion a hunan asesu mewn amryw o wahanol ffyrdd.*

- Sicrhewch fod pawb yn ystyried bod hunan-asesu'n weithgaredd sy'n cynnwys meddwl a siarad yn hytrach ysgrifennu'n unig.
- Hyfforddwch fyfyrwyr i hunan-asesu, er enghraifft drwy fodelu ymatebion posibl.
- Cysylltwch hunan-asesu ac asesu cyfoedion â'r bwriadau dysgu, meini prawf a'r enghreifftiau a rannwyd ar y cychwyn.
- Defnyddiwch amryw o ddulliau i hunan-asesu ac asesu cyfoedion.
  Gofynnwch gwestiynau penodol sy'n gysylltiedig â'r dasg, nid y dysgwr, e.e. "Beth oeddech chi'n ei ystyried oedd yn anodd a pham?" yn hytrach na "Pwy oedd yn meddwl bod hwn yn anodd?"